Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Sant Joseff

Rhodfa Newton
Aberafan
Port Talbot
SA12 6EY

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Sant Joseff

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Sant Joseff |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Gatholig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 835 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 639 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 192 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.3%) | 32.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 9.0%) | 11.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.9% |

| | |
|---|---|
| Partner arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 05/01/2026 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/10/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/01/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Sant Joseff yn gymuned groesawgar a chynhwysol lle mae'r ethos Catholig yn rhoi sail gref i fywyd yr ysgol. Dros y deuddeg mis diwethaf, mae'r ysgol wedi bod trwy gyfnod heriol. Fodd bynnag, trwy gydol y cyfnod hwn, mae ymrwymiad staff wedi parhau'n ddwfn, gan barhau i gefnogi'r disgyblion a chefnogi ei gilydd, er gwaethaf yr heriau a wynebir.

Mae arweinwyr a staff ar bob lefel yn cydweithio i sicrhau bod diwylliant diogelu cryf yn ganolog i waith yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth gefnogol ac yn parhau i lywio'r ysgol trwy gyfnodau heriol. Mae'n adnabod yr ysgol yn dda ac yn ystyried lles disgyblion a staff yn ofalus. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau presennol o ran arweinyddiaeth yn deg nac yn gynaliadwy dros yr hir-dymor. Er bod arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda, nid ydynt yn ddigon manwl na miniog o ran eu gwerthusiad o effaith yr addysgu ar ddysgu disgyblion.

Er gwaethaf gwelliannau diweddar mewn cynllunio, mae'n ddyddiau cynnar o ran darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion. Mae tua hanner y disgyblion yn cael trafferth â chywirdeb gramadegol a sillafu, ac nid eir i'r afael â hyn na'i gywiro. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau rhifedd na'u medrau digidol mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm.

Yn y rhan fwyaf o wersi, ceir perthnasoedd cadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion, sy'n cyfrannu at awyrgylch tawel a chynhyrchiol. Mae mwyafrif yr athrawon yn cynnig gweithgareddau dysgu addas i ddisgyblion. Yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus, ac yn cydweithio'n effeithiol. Mae ychydig o wersi'n hynod effeithiol, lle mae athrawon yn holi'n fedrus i brocio dealltwriaeth disgyblion, ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n tyfu i fod yn gynyddol heriol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig o ganlyniad i ddiffyg her a holi gwan.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn eu helpu i wneud cynnydd addas yn erbyn eu targedau unigol. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn gwrtais a chroesawgar ag ymwelwyr, mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac maent yn cyfrannu'n dda yn ystod gwersi. Mae'r ysgol yn dechrau datblygu cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain a chyfrifoldebau ysgol gyfan. Ceir amrywiaeth eang o weithgareddau cyfoethogi, yn cynnwys clybiau ac ymweliadau diwylliannol, sy'n ategu'r cwricwlwm ac ethos a gwerthoedd Catholig yr ysgol. Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gwella'n dda, ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pum argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr wedi'u diffinio'n glir ac yn cynnwys cydbwysedd da, a bod arweinwyr ar bob lefel yn dwyn staff i gyfrif yn llawn am eu gwaith.

A2 Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.

A3 Gwella darpariaeth ar gyfer medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion fel eu bod yn cael cyfleoedd ystyrlon a heriol i ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

A4 Gwella effeithiolrwydd addysgu.

A5 Gwella cydlynu'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd a medrau digidol disgyblion.

## Beth sy'n digwydd nesaf

### Gwelliant sylweddol

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen gwelliant sylweddol yn gysylltiedig â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

# Prif ganfyddiadau

## Addysgu a dysgu

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol gadarn ac yn sefydlu arferion ystafell ddosbarth clir sy'n cael eu hymgorffori'n dda a'u cymhwyso'n gyson. Maent yn parchu disgyblion ac mae ystafelloedd dosbarth yn amgylcheddau tawel a diogel. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at athrawon a chyfoedion, yn gwrando'n ofalus ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n briodol. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu esboniadau a chyfarwyddiadau sy'n glir, yn gywir ac yn hygyrch ar gyfer pob un o'r disgyblion.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â disgyblion. Maent yn mynd o gwmpas yr ystafell ddosbarth yn rheolaidd i fonitro cynnydd disgyblion, gan ddarparu cymorth amserol ac arweiniad unigol. Maent yn gofyn cwestiynau priodol i asesu dealltwriaeth disgyblion ac yn cynnig adborth addas ar lafar. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu ac yn aml yn dangos brwdfrydedd, yn enwedig yn ystod gweithgareddau pâr a grŵp.

Yn y mwyafrif o achosion, mae gan athrawon ddisgwyliadau addas o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn modelu iaith yn briodol ac yn gwneud defnydd effeithiol o derminoleg sy'n benodol i bwnc i ymestyn gwybodaeth disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio tasgau a gweithgareddau sy'n adeiladu ar ei gilydd yn synhwyrol. Ar y cyfan, maent yn cyflwyno gwersi ag iddynt gyflymdra da ac yn darparu lefel briodol o her. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddal ati i ganolbwyntio a gwneud cynnydd addas, o leiaf.

Yn yr ychydig o wersi lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf, mae athrawon yn cyfleu disgwyliadau uchelgeisiol o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn cynllunio gweithgareddau heriol sy'n adeiladu'n ofalus ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol disgyblion. Mae eu hesboniadau'n fanwl ac wedi eu haddasu'n fedrus i ddiwallu anghenion pob un o'r disgyblion. Maent yn defnyddio cwestiynau treiddgar i herio meddwl disgyblion a datblygu eu dealltwriaeth ymhellach.

Mewn lleiafrif o achosion lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig, mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel. O ganlyniad:

- maent yn cynllunio gwersi nad ydynt yn ddigon heriol, gyda gormod o dasgau ailadroddus
- nid ydynt yn sefydlu cydbwysedd priodol rhwng cefnogi dysgu disgyblion a datblygu eu hannibyniaeth
- maent yn defnyddio ystod gyfyngedig o gwestiynau
- nid ydynt yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ochr yn ochr â'u gwybodaeth bynciol
- nid ydynt yn herio goddefgarwch nac ymgysylltiad disgyblion yn ddigon da.

Mae effaith adborth ysgrifenedig yn gyfyngedig. Yn yr achosion gorau, mae disgyblion yn defnyddio cyngor eu hathrawon i wella'u gwaith yn dda. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw'r adborth yn ddigon buddiol i alluogi disgyblion i wella'u gwaith.

## Medrau llythrennedd

Yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi dechrau gweithio gydag athrawon i gynllunio ystod o gyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r cyfleoedd hyn yn dechrau cael eu hintegreiddio, ond megis dechrau datblygu y mae cynllunio strategol a chydlynu'r ddarpariaeth hon.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n barchus ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Pan fydd cyfleoedd yn codi, maent yn mynegi eu syniadau'n glir ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau athrawon. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc yn briodol. Mae ychydig o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn hynod effeithiol ac yn rhugl, gan ddisgrifio beth maent wedi'i ddysgu yn hyderus ac yn glir. Mae ychydig o ddisgyblion yn darparu atebion byr, annatblygedig yn unig, ac nid oes ganddynt eirfa ddigon eang.

O roi'r cyfle iddynt, mae mwyafrif y disgyblion yn addasu eu hysgrifennu'n briodol ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, gan gefnogi eu barn gyda thystiolaeth a rhesymau clir. Mae ychydig ohonynt yn ysgrifennu'n hynod effeithiol. Mae'r disgyblion hyn yn strwythuro'u gwaith yn dda ac yn dewis eu geirfa'n ofalus, gan gynhyrchu darnau soffistigedig o ysgrifennu. Fodd bynnag, mae tua hanner y disgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadegol sylfaenol cyson. Oherwydd diffygion mewn asesu ac adborth ar gyfer llythrennedd, mae disgyblion yn parhau i wneud y camgymeriadau sylfaenol hyn. Mae gan ychydig ohonynt lawysgrifen wael sy'n anodd ei ddeall.

## Darllen

Mae'r ysgol wedi cydnabod pwysigrwydd gwella medrau darllen disgyblion ac wedi gwneud hyn yn flaenoriaeth ysgol gyfan. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cwblhau holiadur defnyddiol gyda'r disgyblion sydd wedi rhoi dealltwriaeth glir iddynt o farn disgyblion o'r ddarpariaeth ddarllen. Mae arweinwyr yn dechrau cynllunio gweithgareddau i ddatblygu medrau darllen ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu'r rhain.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn deall pwysigrwydd ac yn gwerthfawrogi gwerth darllen. Mae llawer o ddisgyblion yn dod o hyd i wybodaeth yn effeithlon ac yn cwblhau ymarferion darllen a deall sylfaenol yn gymwys. Mae'r disgyblion hyn yn nodi geiriau allweddol yn briodol wrth anodi testunau, yn dod i gasgliadau sylfaenol wrth edrych ar ddelweddau ac yn crynhoi gwybodaeth yn addas. Mewn gwersi Saesneg, mae disgyblion hŷn yn dadansoddi testunau llenyddol yn gymwys. Maent yn cynnwys dyfyniadau dilys i gefnogi'r pwyntiau a wnânt ac yn archwilio'r iaith yn fanwl. Mae mwyafrif y disgyblion iau yn cymhwyso technegau i ddadansoddi testunau yn addas, er bod lleiafrif ohonynt yn nodi technegau heb ddadansoddi nac archwilio'u heffaith. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu huwch-fedrau darllen fel cywain gwybodaeth, cymharu a gwerthuso ar draws y cwricwlwm, yn gyfyngedig. Er bod disgyblion yn cwblhau ystod o ymarferion darllen a deall, nid yw'r gweithgareddau hyn yn eu helpu i ddatblygu mwy na dealltwriaeth arwynebol o'r testun sy'n cael ei astudio. At ei gilydd, mae profiadau darllen gormod o ddisgyblion wedi eu cyfyngu i adalw gwybodaeth sy'n cynnig lefel gymedrol o her yn unig.

Mae trefniadau pontio presennol yr ysgol yn nodi a chefnogi'r disgyblion hynny sy'n cyrraedd Blwyddyn 7 gyda medrau darllen gwan. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o brofion a gwybodaeth sylfaenol a gasglwyd gan staff addysgu i nodi'r disgyblion hynny sydd angen cymorth â'u medrau darllen sylfaenol. Mae'r dosbarth 'Darpariaeth Arloesi' ('Pioneer Provision') yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i ddatblygu eu medrau darllen a chymryd rhan ac ymgysylltu'n llawn â gweithgareddau darllen dosbarth. Mae strategaethau synhwyrol yn cael eu cyflwyno i sicrhau dull cyson gydag ysgolion cynradd lleol i wella medrau darllen disgyblion. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae'r rhain.

Megis dechrau mae'r arfer o ddatblygu diwylliant o ddarllen, a'r ffocws ar eirfa. Mae'r ysgol wedi ailagor ei llyfrgell yn ddiweddar ac yn gweithio ar wella'r adnodd hwn. Mae cyfleoedd wedi eu hamserlennu bellach wedi cael eu dyrannu i ddisgyblion ymweld â'r llyfrgell yn ystod gwersi Saesneg. Hyd yma, gwnaed gwaith cyfyngedig gyda rhieni i hyrwyddo darllen er pleser.

## Medrau rhifedd a digidol

Nid yw cynllunio strategol i gefnogi datblygiad graddol medrau rhifedd a digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol. O roi'r cyfle iddynt, mae disgyblion yn cymhwyso agweddau sylfaenol ar rifedd yn briodol mewn ychydig o bynciau perthnasol. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae llawer ohonynt yn cyflwyno data yn glir mewn tablau ac yn cyfrifo yn gywir gan ddefnyddio lluosi sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i gymhwyso medrau rhifedd y tu hwnt i dasgau arferol, er enghraifft i ddatrys problemau cymhleth mewn cyd-destunau anghyfarwydd. Mae llawer ohonynt yn creu graffiau anghywir gyda gwallau plotio a chyflwyniad gwael, ac yn aml, nid yw athrawon yn nodi nac yn mynd i'r afael â'r rhain. Pan gaiff medrau digidol eu haddysgu'n benodol trwy wersi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), mae disgyblion yn datblygu medrau addas. Er enghraifft, mewn cyfrifiadureg, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn datblygu dealltwriaeth briodol o godio. Fodd bynnag, mae cyfleoedd cyfyngedig ar draws yr ysgol i ddisgyblion ddatblygu ac ymarfer eu huwch-fedrau digidol.

## Cymraeg

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg. Mae llawer ohonynt yn ynganu geirfa Gymraeg yn briodol ac yn cyfieithu geiriau sylfaenol o'r Gymraeg i'r Saesneg yn gywir. Maent yn cynhyrchu darnau byr o ysgrifennu yn Gymraeg gan ddefnyddio ystod addas o eirfa. Mae ychydig iawn ohonynt yn llunio ymatebion mwy cymhleth, gan ddefnyddio amserau'r ferf yn effeithiol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae gormod o ddibyniaeth ar batrymau brawddeg a diffyg defnydd o'r iaith lafar. O ganlyniad, nid oes gan ddisgyblion hyder i gyfathrebu yn yr iaith. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 7 ac 8 yn cael dwy wers yn unig bob pythefnos, sy'n cyfyngu ar eu datblygiad iaith.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth am y Gymraeg a'i diwylliant y tu allan i wersi Cymraeg, er enghraifft trwy'r ymweliadau preswyl â Llangrannog ac Eisteddfod yr ysgol. Dethlir y Gymraeg a'i diwylliant trwy waith y 'Criw Cymraeg' yn ystod 'Diwrnod Shwmae / Su'mae' a dathliadau 'Dydd Miwsig Cymru'.

## Cwricwlwm

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer ei chwricwlwm sy'n adlewyrchu ei rhinweddau Catholig ac yn hyrwyddo 'meithrin pobl ifanc iach, hyderus ac uchelgeisiol trwy ffydd a dysgu'. Mae disgyblion yn profi ystod eang o bynciau ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Wrth gynllunio'r cwricwlwm, mae arweinwyr wedi rhoi ystyriaeth briodol i gyd-destun lleol yr ysgol ac wedi elwa'n fuddiol o safbwyntiau disgyblion a staff. At ei gilydd, nid yw arweinwyr yn gwerthuso darpariaeth y cwricwlwm yn ddigon cadarn i bennu ei heffaith ar ddysgu a datblygiad disgyblion a darparu rhesymeg glir ar gyfer eu dewisiadau cwricwlwm.

Ym Mlynyddoedd 10 ac 11, mae'r ysgol yn cynnig ystod addas o gyrsiau academaidd a galwedigaethol sy'n adlewyrchu diddordebau a dyheadau disgyblion. Mae staff yn cryfhau'r ddarpariaeth hon ymhellach trwy addasu'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio o'r ysgol. Er enghraifft, mae'r 'rhaglen llwybrau a darpariaeth amgen' yn cynnig opsiynau galwedigaethol a mynediad at ddarpariaeth allanol i ddisgyblion, gan gynnwys prentisiaeth iau.

Mae athrawon yn cyfoethogi profiadau disgyblion trwy ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddysgu am eu cymuned leol, Cymru a'r byd ehangach. Er enghraifft, mae disgyblion mewn gwersi dyniaethau yn archwilio hanes ac effaith y diwydiant dur lleol. Mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o amrywiaeth trwy ychydig o gyfleoedd yn y cwricwlwm, fel darllen llenyddiaeth gan awduron du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol mewn gwersi Saesneg. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad creadigol ac artistig yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 8 yn dylunio, creu a cheisio gwerthu cynhyrchion cynaliadwy i fusnesau lleol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw arweinwyr yn cydlynu'r profiadau trawsgwricwlaidd hyn i sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu llawn hyrwyddo ar draws meysydd pwnc.

Mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth gymdeithasol, foesol, ysbrydol a diwylliannol yn dda ac yn dysgu am ddewisiadau iach am ffordd o fyw trwy wersi 'gofal bugeiliol' a chrefydd, gwerthoedd a moeseg. Mae'r ysgol yn ehangu profiadau disgyblion ymhellach trwy ystod eang o glybiau allgyrsiol a rhaglen eang o ymweliadau addysgol, yn cynnwys trip astudiaethau busnes i Frwsel, ymweliad eco i Kraków a phererindod seiclo i Santiago de Compostela.

## Chweched Dosbarth

Mae bron pob un o'r disgyblion yn y chweched dosbarth yn dangos agwedd gadarnhaol at eu hastudiaethau. Maent yn cyfrannu o'u gwirfodd at drafodaethau dosbarth ac yn dangos brwdfrydedd am ddysgu. Maent yn uniaethu'n dda â'i gilydd ac yn dangos parch at safbwyntiau ei gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn y chweched dosbarth yn gwneud cynnydd disgwyliedig, o leiaf, mewn gwersi o ganlyniad i addysgu effeithiol. Mae'r ysgol yn darparu cymorth ymyrraeth buddiol i ddisgyblion yn y chweched dosbarth, er enghraifft mentora, sesiynau galw i mewn ar gyfer pynciau a gweithdai technegau arholiadau.

Mae cwricwlwm y chweched dosbarth yn eang ac amrywiol. Mae'n cynnig ystod eang o bynciau academaidd a galwedigaethol, fel ei gilydd. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd sy'n briodol ac yn gynhwysfawr trwy wersi 'gofal bugeiliol'. Mae partneriaethau allanol â sefydliadau lleol a chenedlaethol yn chwarae rôl arwyddocaol wrth gyfoethogi profiadau'r chweched dosbarth.

Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn chwarae rôl weithredol ym mywyd yr ysgol, er enghraifft arwain elfennau o raglen bontio'r ysgol neu fentora disgyblion iau. Mae

disgyblion yn elwa ar arweiniad gyrfaoedd gwerth chweil i helpu cefnogi eu cyfnod pontio i'r camau nesaf yn eu haddysg. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cyflwyno sesiynau ar geisiadau UCAS, prentisiaethau a gyrfaoedd. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn ymgysylltu'n helaeth â rhaglenni ymestynnol prifysgolion. Mae disgyblion yn mwynhau ystod o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys chwarae i dimau chwaraeon yr ysgol neu gymryd rhan mewn tripiau ac ymweliadau.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Sant Joseff yn gymuned ofalgar sydd ag ymrwymiad clir a phwrpasol i les disgyblion, sydd wedi'i wreiddio yn rhinweddau Catholig yr ysgol. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol sy'n cyfrannu'n ystyrlon at ymdeimlad disgyblion o berthyn.

Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn briodol trwy ystod o bartneriaethau gwerth chweil ag asiantaethau allanol. Mae'r partneriaethau hyn yn ymestyn darpariaeth yr ysgol ac yn hyrwyddo gwerthoedd pwysig. Er enghraifft, mae gweithdai sy'n canolbwyntio ar hiliaeth a chasineb at fenywod yn helpu disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae gwasanaethau'r ysgol ar themâu fel caredigrwydd a chwilfrydedd yn atgyfnerthu ethos yr ysgol.

Mae disgyblion bregus yn elwa ar gymorth gwerthfawr a theilwredig a ddarperir trwy 'Y Cwtch', 'Yr HWB' a'r ystafell 'Yn barod i ddysgu'. Mae perthnasoedd rhwng disgyblion a staff yn yr ardaloedd hyn yn gryf, ac mae'r cymorth a gaiff disgyblion yn eu helpu i oresgyn rhwystrau rhag dysgu ac ymgysylltu. Yn ogystal â'r ddarpariaeth hon sy'n cael ei harwain gan staff, mae disgyblion yn cefnogi ei gilydd yn dda, hefyd. Er enghraifft, mae clwb 'Spill the Tea' yn darparu gofod diogel lle mae disgyblion hŷn yn cynorthwyo disgyblion iau, yn enwedig y rhai ym Mlwyddyn 7.

Mae staff yn cymryd eu cyfrifoldeb am ddiogelu disgyblion yn ddifrifol, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae arweinwyr, staff a llywodraethwyr yn cael hyfforddiant diogelu sy'n briodol i'w rolau ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau. Mae gweithdrefnau diogelu yn gadarn ac yn cael eu deall gan staff. Mae llywodraethwr diogelu dynodedig wedi'i benodi, ac mae uwch arweinwyr yn darparu diweddariadau rheolaidd a defnyddiol i'r corff llywodraethol. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol ac ystod eang o asiantaethau allanol i sicrhau bod disgyblion bregus yn cael eu cefnogi'n effeithiol.

Caiff ymddygiad disgyblion ei reoli'n gyson ac yn deg. Mae disgyblion yn deall ymagwedd raddol yr ysgol at wobrau a chosbau, sydd wedi'i chysylltu'n glir â'i hethos a'i gwerthoedd Catholig. I'r rhai sy'n cael trafferth mewn gwersi prif ffrwd, mae'r ysgol yn darparu llwybrau cwricwlwm amgen gwerthfawr. Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion nad ydynt yn teimlo'u

bod yn cael eu bwlio yn yr ysgol. Mae achosion o fwlio yn brin, ac ymdrinnir â nhw'n briodol pan fyddant yn digwydd.

Rhwng 2022-2023 a 2024-2025, bu cynnydd sylweddol mewn presenoldeb ysgol gyfan. Dros yr un cyfnod, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella, ac mae'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg a'r ffigwr cenedlaethol ar gyfer Cymru erbyn hyn. Mae cyfraddau absenoldebau parhaus wedi gostwng yn gyson dros y tair blynedd ddiwethaf, ac erbyn hyn maent islaw'r rhai a welir mewn ysgolion tebyg ac yn genedlaethol. Er gwaethaf y tueddiadau cadarnhaol hyn, mae presenoldeb cyffredinol yn parhau i fod islaw lefelau cyn y pandemig. Mae'r ysgol yn parhau i flaenoriaethu gwella presenoldeb. Mae wedi cryfhau ei thîm bugeiliol yn ddiweddar, gan alluogi mwy o ffocws ar yr agwedd hon. Mae staff yn targedu cymorth yn briodol tuag at ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n absennol yn barhaus.

Mae'r tîm ADY yn gweithio'n ddiwyd i gefnogi disgyblion ag ADY. Mae arweinwyr yn gweithio'n bwrpasol gyda disgyblion a rhieni i greu cynlluniau datblygu unigol (CDUau) priodol, sy'n rhoi trosolygon manwl o unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae proffiliau un dudalen defnyddiol yn ychwanegu at y rhain, sy'n cynnig arweiniad i athrawon ar sut orau i gefnogi dysgu disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn monitro'n ddigon agos pa mor dda y mae athrawon yn addasu eu strategaethau addysgu i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY mewn gwersi prif ffrwd.

Caiff cynnydd yn erbyn targedau CDU ei fonitro'n agos trwy gyfarfodydd adolygiad yn canolbwyntio ar yr unigolyn, lle mae arweinwyr yn ystyried barn disgyblion, eu rhieni a'u hathrawon. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod addas o brofion gwaelodlin ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r data hwn i nodi angen a chydlynu'r ymyriadau sydd ar gael i ddisgyblion ag ADY. Mae cynllunio ac olrhain ymyraethau yn fanwl yn rhoi dealltwriaeth gadarn i arweinwyr o'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion sy'n manteisio ar rhain. Mae'r 'Ddarpariaeth Arloesi' ('Pioneer Provision') yn darparu dosbarthiadau anogaeth llai o faint ym Mlwyddyn 7 i 11 ar gyfer disgyblion ag ADY sydd angen cymorth ychwanegol. Mae staff yn adnabod y disgyblion hyn yn dda ac yn gweithio'n galed i ddiwallu eu hanghenion lles ac academaidd. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon cadarn o'r cynnydd y mae disgyblion ag ADY yn ei wneud mewn gwersi prif ffrwd.

Mae cyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth disgyblion yn gyfyngedig. Mae'r Cyngor Ysgol a adferwyd yn ddiweddar yn dechrau datblygu ei flaenoriaethau. Mae rolau fel 'Arweinwyr Teilyngdod' ('Merit Leaders') Blwyddyn 11 a swyddogion chweched dosbarth yn cynnig profiad arweinyddiaeth ychwanegol. At ei gilydd, nid oes gan ddisgyblion lais digon cryf ym mywyd yr ysgol ac nid ydynt yn cael eu cynrychioli ar y corff llywodraethol.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen bontio werthfawr, yn cynnwys y 'prosiect llwy garu' a chardiau Nadolig gan ddisgyblion Blwyddyn 7 i Flwyddyn 6. Mae staff yn cynnig arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion sy'n symud i Flwyddyn 10 a Blwyddyn 12, wedi'i gefnogi gan

gysylltiadau cryf â Gyrfa Cymru. Mae disgyblion bregus yn elwa ar lwybrau galwedigaethol amgen, sy'n eu cadw wedi ymgysylltu â dysgu ac yn eu helpu i baratoi ar gyfer addysg bellach neu fyd gwaith.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth ymroddgar, feddylgar ac ystyriol. Yn ystod cyfnod hynod anodd i'r ysgol, mae wedi cefnogi staff a disgyblion ag ymagwedd galonogol a sensitif. Yn ystod y cyfnod hwn, bu newidiadau sylweddol mewn arweinyddiaeth sydd wedi cael effaith sylweddol ar gymuned yr ysgol.

Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi'i seilio ar rymuso pob un o'r staff i gyflawni eu rolau mor effeithiol ag y bo modd, tra'n cynnal gwerthoedd Catholig cryf yr ysgol, sef cynhwysiant a gofal. Mae'n realistig am rwystrau'r ysgol rhag gwella, yn cynnwys ansefydlogrwydd yn yr uwch dîm arwain.

Gyda chymorth y corff llywodraethol, mae uwch arweinwyr wedi sicrhau bod lles disgyblion a staff wedi cael ei flaenoriaethu yn ystod y cyfnod hwn o newid. Mae'r ysgol wedi cymryd camau addas i atgyfnerthu a chryfhau ei diwylliant diogelu. Mae hefyd wedi ymdrechu'n sylweddol i gryfhau ei chysylltiadau â'r gymuned leol, er bod rhai rhieni'n teimlo o hyd nad yw'r ysgol yn cyfathrebu â nhw'n ddigon da.

Yn ddiweddar, mae strwythur arweinyddiaeth dros dro wedi cael ei roi ar waith i gynyddu capasiti'r uwch dîm. Yn gyffredinol, mae uwch arweinwyr yn darparu cymorth buddiol ar gyfer y pennaeth dros dro. Fodd bynnag, nid oes cydbwysedd digon da yn eu rolau, nid ydynt wedi'u sefydlu'n ddigon da, ac nid yw'r trefniadau presennol o ran uwch arweinyddiaeth yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Mae uwch arweinwyr wedi cydnabod bod angen cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ac yn dechrau gweithredu newidiadau synhwyrol i'r agwedd hon ar waith yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun gwella'r ysgol yn synhwyrol ac yn nodi meysydd addas ac eang i'w datblygu. At ei gilydd, fodd bynnag, mae diffyg manylder mewn prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae gwerthusiadau'n canolbwyntio'n bennaf ar beth mae athrawon yn ei wneud, gan roi ystyriaeth annigonol i'r effaith a gaiff y ddarpariaeth honno ar gynnydd disgyblion. Mae hyn yn rhwystro gallu arweinwyr i gynllunio'n dda ar gyfer gwelliant pellach.

Mae arweinwyr canol yn ymroddgar, yn frwdfrydig ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael her a chymorth digonol gan reolwyr llinell i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn effeithiol. At ei gilydd, mae diffyg trylwyredd o ran pa mor dda mae arweinwyr ar bob lefel yn dwyn staff i gyfrif.

Mae staff yn ymgymryd â phroses hunan fyfyrio addas, gan ganolbwyntio ar eu hanghenion datblygiad proffesiynol fel rhan o'r broses adolygu datblygiad proffesiynol.

Fodd bynnag, megis dechrau cael ei rhoi ar waith y mae'r broses hon. Yn gyffredinol, mae dysgu proffesiynol yn cyd-fynd yn briodol â blaenoriaethau gwella ysgol gyfan, er nad yw wedi'i deilwra'n ddigonol i ddiwallu anghenion meysydd pwnc, timau a staff unigol. Nid yw wedi cael effaith ddigonol, er enghraifft, ar ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol na gallu arweinwyr i werthuso addysgu a dysgu yn effeithiol.

Mae llywodraethwyr yn brofiadol, yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn rhoi her a chymorth buddiol i uwch arweinwyr. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o'u rôl a'u cyfrifoldebau, ar y cyfan. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o waith yr ysgol a dealltwriaeth fanwl o sefyllfa ariannol yr ysgol. Mae'r pennaeth dros dro, y rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn monitro cyllideb a gwariant yr ysgol yn agos. Er bod diffyg yng nghyllideb yr ysgol ar hyn o bryd, mae ganddi gynllun adfer priodol a gytunwyd gyda'r awdurdod lleol.

Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant fel y grant datblygu disgyblion yn briodol i gefnogi cynnydd a lles disgyblion o aelwydydd incwm isel. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb y disgyblion hyn, er bod eu deilliannau ar ddiwedd Blwyddyn 11 wedi amrywio dros y tair blynedd ddiwethaf. Nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith y strategaethau a ariennir gan y grant datblygu disgyblion yn ddigon trylwyr.

Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau buddiol i gynorthwyo disgyblion o aelwydydd incwm isel, fel darparu offer a deunyddiau adolygu ar gyfer disgyblion, rhoi cymhorthdal ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol ac adolygu addasrwydd darpariaeth y cwricwlwm. At ei gilydd, mae arweinwyr wedi mynd i'r afael â llawer o flaenoriaethau cenedlaethol yn briodol, er nad ydynt wedi cael effaith ddigonol ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae diffyg yng nghyllideb yr ysgol o hyd, ac mae ganddi gynllun adfer sydd wedi'i gytuno gan yr awdurdod lleol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

# Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2026